# Y Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol

| | |
|---|---|
| Lleoliad: | **Ystafell Bwyllgora 2 - y Senedd** |
| Dyddiad: | **Dydd Mercher, 3 Gorffennaf 2013** |
| Amser: | **09:00 - 11:52** |

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

Gellir gwylio'r cyfarfod ar Senedd TV yn:

http://www.senedd.tv/archiveplayer.jsf?v=cy_300000_03_07_2013&t=0&l=cy

## Cofnodion Cryno:

| | |
|---|---|
| Aelodau'r Cynulliad: | **Christine Chapman (Cadeirydd)**<br>**Leighton Andrews**<br>**Peter Black**<br>**Janet Finch-Saunders**<br>**Mike Hedges**<br>**Mark Isherwood**<br>**Gwyn R Price**<br>**Jenny Rathbone**<br>**Rhodri Glyn Thomas**<br>**Lindsay Whittle** |
| Tystion: | |
| Staff y Pwyllgor: | **Marc Wyn Jones (Clerc)**<br>**Sarah Bartlett (Dirprwy Glerc)**<br>**Rhys Iorwerth (Ymchwilydd)**<br>**Jonathan Baxter (Ymchwilydd)** |

**TRAWSGRIFIAD**

Trawsgrifiad o'r cyfarfod.

## 1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau a dirprwyon

Cafwyd ymddiheuriadau gan Ken Skates a Rhodri Glyn Thomas. Roedd Leighton Andrews yn dirprwyo ar ran Ken Skates, a Jocelyn Davies ar ran Rhodri Glyn Thomas.

Diolchodd y Cadeirydd i Ken Skates am ei gyfraniad i'r Pwyllgor a'i longyfarch ar ei benodiad yn Ddirprwy Weinidog.

## 2 Ymchwiliad i lefelau cyfranogiad mewn chwaraeon - sesiwn dystiolaeth

Clywodd y Pwyllgor dystiolaeth gan y Gweinidog Diwylliant a Chwaraeon. Cytunodd y Gweinidog i ddarparu'r wybodaeth ganlynol:

rhagor o wybodaeth am yr arolwg o hamdden awyr agored yng Nghymru a nodyn ar y prosiect gemau stryd.

## 3 Ymchwiliad i lefelau cyfranogiad mewn chwaraeon - sesiwn dystiolaeth

Clywodd y Pwyllgor dystiolaeth gan Weinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth. Cytunodd y Gweinidog i ddarparu'r wybodaeth ganlynol:

y diffiniadau o ddigwyddiadau chwaraeon mawr a ddefnyddiwyd gan yr uned i gategoreiddio digwyddiadau yng Nghymru a chan Adran Diwylliant, Cyfryngau a Chwaraeon y DU i werthuso effaith gemau Olympaidd 2012 ac yn benodol o ran y canlyniadau ehangach.

## 4 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42 i benderfynu gwahardd y cyhoedd o'r cyfarfod ar gyfer y canlynol:

Cytunodd y Pwyllgor â'r cynnig.

## 5 Ymchwiliad i addasiadau yn y cartref - ystyried yr adroddiad drafft

Ystyriodd y Pwyllgor yr adroddiad drafft a nodi y byddai'n cael ei ystyried ymhellach yn y cyfarfod nesaf.

## 6 Blaenraglen waith y Pwyllgor - ystyried yr ymchwiliad nesaf

Cytunodd y Pwyllgor i gynnal ei ymchwiliad nesaf i gydweithrediad llywodraeth leol. Caiff cylch gorchwyl drafft ei ystyried yn y cyfarfod nesaf.